ATODLEN 4 Rheoliad 20(3) a (4)

Ffurflen ymgymeriad

Yr wyf fi, [*A.B. etc*], sef person a benodwyd at ddiben cynnal Cyfrifiad 2021 ("y cyfrifiad"), yn ymrwymo y byddaf yn cyflawni'r dyletswyddau a neilltuir imi o dan Ddeddf y Cyfrifiad 1920 a Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2020 ("dyletswyddau yn y cyfrifiad") yn llawn ac yn onest.

Byddaf yn cyflawni fy nyletswyddau yn y cyfrifiad gan gydymffurfio â darpariaethau adran 39 o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a phob rhwymedigaeth gyfreithiol berthnasol arall. Yr wyf yn deall y gall methu â chydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny arwain at euogfarn droseddol a dirwy neu garchariad.

Ac eithrio wrth gyflawni fy nyletswyddau yn y cyfrifiad, ni fyddaf yn datgelu nac yn mynegi, ar unrhyw bryd, unrhyw fater y caf wybod amdano ynglŷn ag unrhyw berson, teulu neu aelwyd.

Dim ond i gyflawni fy nyletswyddau yn y cyfrifiad y byddaf yn defnyddio unrhyw ddeunyddiau mynediad a roddir imi, gan gynnwys unrhyw bàs diogelwch, cyfryngau electronig, deunydd adnabod personol neu gyfrineiriau. Ni fyddaf yn rhoi benthyg, yn trosglwyddo nac yn datgelu fel arall ddeunyddiau o'r fath i unrhyw berson arall, oni bai fy mod yn cael fy nghyfarwyddo'n benodol i wneud hynny gan y Bwrdd Ystadegau.

Byddaf yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon sydd gennyf ynghylch cyfrinachedd gwybodaeth bersonol mewn cysylltiad â'm dyletswyddau yn y cyfrifiad, neu o ran unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r cyfrifiad pa un a ydynt yn deillio o'm gweithredoedd i neu weithredoedd pobl eraill, yn uniongyrchol i'r Bwrdd Ystadegau.

Llofnodwyd _____

Dyddiedig_____